

## Beth yw gradd ymsang?

Yn ystod blwyddyn ymsang, byddwch yn cwblhau gradd BSc neu MSc mewn pwnc meddygol cysylltiol. Gallwch wneud hyn ar ôl naill ai blwyddyn 3 neu 4 eich astudiaethau MBBCh.


Mae tua 120 o fyfyrwyr yn astudio graddau ymsang bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn astudio cyrsiau BSc ym Mhrifysgol Caerdydd neu ym Mhrifysgol Bangor, gan fod cysylltiadau agos rhwng y ddwy brifysgol. Gall myfyrwyr rhagorol astudio graddau ymsang mewn sefydliadau eraill yn y DU ar gyfer cyrsiau nad ydynt ar gael yma.



## Rhesymau dros ddilyn cwrs gradd ymsang

- Astudio maes o ddiddordeb mewn mwy o fanylder a dyfnder na'r hyn a gwmpesir gan radd mewn Meddygaeth
- Cymryd rhan mewn darn gwreiddiol o ymchwil
- Gwella eich sgiliau trosglwyddadwy sy'n gysylltiedig ag ymchwil, a fydd o fantais i chi mewn gyrfaedd academaidd a chlinigol
- Datblygu gwybodaeth ddamcaniaethol sylfaenol a rhwydweithiau ymchwil posibl, ar gyfer MD neu PhD mewn maes arbenigol penodol yn y dyfodol
- O ystyried bod blwyddyn ymsang yn orfodol mewn rhai ysgolion meddygol, mae BSc neu MSc yn rhywbeth deniadol i'w ychwanegu at eich CV.

## Pa raddau a gynigir? Rhaglenni BSc ac MSc ym **Mhrifysgol Caerdydd**\*:



### BSc

- Anatomeg
- Biocemeg
- Gofal Brys, Cyn Mynd i'r Ysbyty, ac Ar Unwaith
- Meddygaeth Genomig
- Addysg Feddygol
- Niwrowyddoniaeth

- Ffarmacoleg

- Ffisioleg
- Meddygaeth Boblogaethau
- Meddygaeth a Seicoleg.

### MSc

- Imiwnoleg Glinigol Gymhwysol ac Arbrofol

## Rhaglenni BSc ym **Mhrifysgol Bangor**\*:

- Niwroseicoleg
- Gwyddor Chwaraeon

\*Mae'r cyrsiau BSc a restrir yn enghreifftiau o'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer 2023/24. Gall y rhain fod yn amodol ar newid yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod rhaglenni'n cadw'n gyfredol.



## Adborth gan fyfyrwyr, a'u cyflawniadau

*“Roedd cael y cyfle i wneud blwyddyn ymsang mewn Epidemoleg Clinigol wir wedi helpu i lywio fy newis gyrfa ac rwy'n ddiolchgar iawn am hynny.”*

*“Ar wahân i fod yn flwyddyn ddifyr iawn o rywbeth hollol wahanol, cefais gyfle i ysgrifennu 3 erthygl a adolygwyd gan gymheiriaid, a chyflwyno fy ngwaith mewn cynadleddau cenedlaethol. Rwyf bellach yn fyfyrwr ôl-raddedig ers cwpl o flynyddoedd, ac mae'r holl 'ddarnau ychwanegol' hyn wedi gwneud gwahaniaeth go iawn wrth ymgeisio am swyddi cystadleuol. Ar hyn o bryd rwy'n gwneud cais i ymgymryd â hyfforddiant niwrolegol yng Nghanaada.”*

*“Arhosais er mwyn cwblhau MPhil cyhoeddais ym maes Pediatrig (Ffactor Effaith>5), rhoi cyflwyniad yn Harvard ac enillais wobrau Cymdeithas Pediatrig Cymru am y cyflwyniadau gorau yn y Cyfarfod Blynyddol.”*

*“Gall pynciau a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn ysbrydoli a llywio cynlluniau gyrfa, boed yn ystyried ymchwil academiaidd neu'n faes o ddiddordeb arbennig yn unig.”*

*“Diolch yn fawr iawn am flwyddyn werth chweil. Roedd dewis cael blwyddyn ymsang ar ddiwedd y 4edd flwyddyn yn benderfyniad anodd ac ar ôl gorffen y flwyddyn, gallaf ddweud yn onest y bu'n benderfyniad nad wyf wedi difaru'r un tamaid!”*

*“Mae natur yr astudio yn fwy annibynnol, gyda phwyslais ychwanegol ar archwilio a chwestiynu. Felly, mae'n datblygu sgiliau datrys problemau ehangach a modd mwy hyblyg o feddwl.”*

*“Cyflwynodd un o'ch myfyrwyr bapur ar gyfer Diwrnod Gwobrwyo Blynyddol Ymchwil ac Archwilio'r Severn Postgraduate School of Surgery ac Adran Llawfeddygaeth Prifysgol Bryste. Aeth ymlaen i roi cyflwyniad hyderus i gyfadran academiaidd yr Adran Llawfeddygaeth yn ogystal â thua hanner cant o gynrychiolwyr eraill gan gynnwys Llywydd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, yr Athro Norman Williams. Yn well fyth, enillodd y wobwr gyntaf yn yr adran Ymchwil yn erbyn ceisiadau eraill o safon gan gofrestryddion llawfeddygol. Cyllid addysg gwerth £1000 yw'r wobwr atyniadol hon.”*

**Yr Athro Richard Canter**

**– Deon Cyswllt a Phennaeth y Severn Postgraduate School of Surgery.**

